Senedd Cymru
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg

Ymchwiliad i effaith argyfwng Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru

COV 82
Ymateb gan: Arolygiaeth Gofal Cymru

Welsh Parliament
Children, Young People and Education Committee

Inquiry into the impact of the Covid-19 outbreak on children and young people in Wales

COV 82
Response from: Care Inspectorate Wales

1. Diolch am eich gwahoddiad i Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) gyfrannu at yr ymgynghoriad sy'n gysylltiedig â'r ymchwiliad i effaith pandemig Covid-19 ar blant a phobl ifanc yng Nghymru.

2. Er mwyn llywio ystyriaethau'r Pwyllgor, rydym wedi nodi isod y cyd-destun y mae AGC yn cofrestru, yn rheoleiddio ac yn arolygu gwasanaethau ynddo yng

**Rôl AGC**

3. AGC yw rheoleiddiwr annibynnol gofal cymdeithasol a gofal plant yng Nghymru. Rydym yn cofrestru, yn arolygu ac yn gweithredu i wella ansawdd a diogelwch gwasanaethau er llesiant pobl Cymru.

4. Rydym yn cyflawni swyddogaethau ar ran Gweinidogion Cymru er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch ansawdd a diogelwch gwasanaethau. Caiff ein hannibyniaeth ei diogelu drwy Femorandwm Cyd-ddealltwriaeth rhwng y Prif Arolygydd a Gweinidogion perthnasol Cymru. Mae copi o'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth hwn ar gael ar wefan AGC: https://arolygiaethgofal.cymru/memorandwm-o-ddealltwriaeth-rhyngom-ni-arolygiaeth-gofal-iechyd-cymru-gweinidogion-cymru.

5. Rydym yn penderfynu pwy sy'n gallu darparu gwasanaethau; yn arolygu gwasanaethau rheoleiddiedig a gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol, gan lywio gwelliannau iddynt; yn cynnal adolygiadau cenedlaethol o wasanaethau gofal cymdeithasol; yn gweithredu i sicrhau bod gwasanaethau'n bodloni gofynion deddfwriaethol a rheoliadol ac yn ymateb i bryderon a gaiff eu codi ynghylch gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant.

6. Rydym yn rheoleiddio'r gwasanaethau canlynol:

- **gwasanaethau oedolion:** cartrefi gofal i oedolion; gwasanaethau cymorth cartref; cynlluniau lleoli oedolion a chanolfannau preswyl i deuluoedd
- **gwasanaethau plant**: cartrefi gofal i blant; gwasanaethau maethu; gwasanaethau mabwysiadu; gwasanaethau eirioli a gwasanaethau llety diogel
- **gwasanaethau gofal plant a chwarae**: gwarchodwyr plant; meithrinfeydd; gofal dydd llawn; gofal dydd sesiynol; gofal y tu allan i'r ysgol a darpariaeth chwarae mynediad agored

7. Rydym hefyd yn adolygu perfformiad awdurdodau lleol wrth iddynt gyflawni eu swyddogaethau ym maes gwasanaethau cymdeithasol. Gwnawn hyn drwy

gyfuniad o weithgarwch arolygu a gwerthuso perfformiad. Rydym hefyd yn arolygu'r canlynol:

- gwasanaethau maethu a mabwysiadu awdurdodau lleol
- ysgolion preswyl
- ysgolion arbennig preswyl (trefniadau llety am lai na 295 diwrnod)
- colegau addysg bellach sy'n lletya myfyrwyr dan 18 oed

**Dull gweithredu AGC mewn perthynas â phandemig COVID-19**

8. Ein blaenoriaeth allweddol yw rhoi sicrwydd i'r cyhoedd a Gweinidogion o ran diogelwch gwasanaethau. Caiff ein penderfyniadau eu llywio gan y tair egwyddor ganlynol:

- byddwn yn canolbwyntio ein gweithgarwch lle mae ei angen fwyaf er mwyn sicrhau bod pobl yn cael gofal diogel – mae hyn yn golygu canolbwyntio ar y meysydd hynny lle rydym o'r farn bod y risg i ansawdd y gofal ar ei huchaf, a lle y gallwn wneud y gwahaniaeth mwyaf
- byddwn yn cefnogi darparwyr drwy ystyried sut y gallwn weithredu'n hyblyg ac yn gymesur
- byddwn yn cydymffurfio â'n dyletswydd i ofalu am ein cydweithwyr yn AGC

9. Er mwyn cyflawni hyn, rydym wedi addasu ein gwaith craffu annibynnol, gan sicrhau nad yw AGC yn peri risg afresymol i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, staff y gwasanaethau hynny na staff AGC, ac rydym yn gweithio yn unol â'r canllawiau cenedlaethol. Mae hyn yn ein galluogi i wneud y canlynol:

- cyflawni dyletswyddau statudol AGC i adrodd ar ddiogelwch a llesiant pobl sy'n defnyddio gwasanaethau gofal cymdeithasol a gofal plant, heb ychwanegu baich afresymol at system sy'n wynebu heriau eithriadol ar hyn o bryd,
- hyrwyddo tryloywder am yr ymateb i COVID-19 a sicrhau y gellir dysgu gwersi'n gyflym.

10. Rydym wedi llunio trosolwg o'n dull o roi sicrwydd a monitro yn ystod pandemig COVID-19. Mae copi o'r ddogfen hon ar gael ar ein gwefan: https://arolygiaethgofal.cymru/200513-sut-rydym-yn-sicrhau-ansawdd-diogelwch-gwasanaethau-yn-ystod-pandemig-covid-19.

**Ein dull ymgysylltu**

11. Rydym yn parhau i adolygu ein dull ymgysylltu ar gyfer y sector gofal cymdeithasol i blant. Rydym yn ceisio sicrwydd gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau ymgysylltu, o alwadau wythnosol gyda chomisiynwyr awdurdodau lleol i gyfrannu at gyfarfodydd traws-sector a grwpiau arbenigol, gan gynnwys swyddogion polisi Llywodraeth Cymru a chynrychiolwyr ar ran penaethiaid gwasanaethau plant.

12. Mae AGC yn cysylltu'n uniongyrchol â darparwyr a rheolwyr cartrefi gofal plant a gwasanaethau gofal maeth yn rheolaidd. Rydym yn rhoi cyngor a chymorth ac yn rhannu gwybodaeth arall er mwyn helpu i lywio eu hymatebion i COVID-19. Mae'r mwyafrif o ddarparwyr a chomisiynwyr yn nodi bod digon o gapasiti ledled Cymru. Fodd bynnag, mae rhywfaint o bwysau mewn ardaloedd lleol, er enghraifft lle mae angen lleoliadau ar blant sydd ag anghenion cymhleth.

13. O'n cyswllt rheolaidd â darparwyr gofal plant, rydym yn casglu themâu sy'n dod i'r amlwg ac yn eu rhannu â grwpiau rhanddeiliaid er mwyn cynnig cymorth a lliniaru problemau yn y system ymhellach. Rydym hefyd yn rhannu gwybodaeth bob wythnos ag awdurdodau lleol a'r holl ddarparwyr cartrefi gofal plant am hysbysiadau y mae AGC yn eu cael ynghylch COVID-19.

14. Rydym yn siarad ag awdurdodau lleol o leiaf unwaith bob tair wythnos, gan ymgysylltu â nhw'n amlach os oes gennym bryderon. Yn ogystal, efallai y byddwn yn mynychu cyfarfodydd cynllunio tactegol lleol mewn ymateb i broblem, pryder neu fater diogelu penodol.

15. Yn genedlaethol, rydym yn mynychu cyfarfod wythnosol i drafod materion gwasanaethau plant a threfniadau wrth gefn sy'n cynnwys penaethiaid gwasanaethau plant a Llywodraeth Cymru. Caiff themâu sy'n dod i'r amlwg, canllawiau a materion eu trafod er mwyn cefnogi'r system, blaengynllunio ac annog yr holl bartneriaid i gydweithio i ganfod atebion.

16. Rydym yn parhau i ddatblygu ffyrdd o ymgysylltu'n effeithiol â byrddau diogelu rhanbarthol. Rydym hefyd wedi ceisio sicrwydd gan yr holl awdurdodau lleol o ran eu hymateb i ddiogelu plant. Byddwn yn parhau i geisio sicrwydd mewn perthynas ag arferion diogelu drwy ein gwaith ymgysylltu rheolaidd.

**Iechyd corfforol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc**

17. Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn ystod cyfnod COVID-19 wedi bod yn ddefnyddiol i ddarparwyr ac ymarferwyr. Mae'n nodi'r disgwyliadau sydd ar waith yn glir a sut i barhau i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu'n briodol.

18. Yn gyffredinol, mae darparwyr wedi nodi bod plant wedi ymateb yn dda i'r sefyllfa a'r cyfyngiadau symud a roddwyd ar waith. Rydym wedi cael sicrwydd bod gan yr holl wasanaethau rywfaint o ddarpariaeth addysg ar waith naill ai drwy ysgol brif ffrwd, ysgol annibynnol neu, gan amlaf, drwy addysg yn y cartref. Rydym hefyd yn ymwybodol bod rhai ysgolion hyb yn cefnogi ymadawyr gofal.

19. Mae trefnu cyswllt rhwng plant sy'n derbyn gofal a'u teuluoedd yn heriol i awdurdodau lleol ledled Cymru. Defnyddir cyswllt o bell ar gyfer plant a theuluoedd lle bynnag y bo'n bosibl. Ar gyfer y teuluoedd hynny lle mae'n amhosibl gwneud trefniadau cyswllt, mae'n bosibl y bydd effaith ar iechyd meddwl y plant.

**Plant sy'n agored i niwed a dan anfantais (gan gynnwys disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig ac anableddau, plant mewn angen, plant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim)**

20. Mae nifer y plant sy'n agored i niwed a dan anfantais sy'n defnyddio hybiau addysg yn amrywio. Mae'r niferoedd yn y gogledd yn isel. Dywed rhai awdurdodau lleol fod hyd at 20% o blant agored i niwed yn mynychu, ac mae eraill wedi nodi bod hyd at 80% yn mynychu. Mae rhai rhieni/gofalwyr wedi dweud bod pryderon am ddiogelwch yn rheswm dros beidio â mynychu ac mae eraill wedi dweud mai stigma yw'r rheswm. Rydym ar ddeall bod awdurdodau lleol wedi bod yn rhagweithiol wrth annog plant i fynychu ac mae rhai yn dechrau gweld cynnydd mewn presenoldeb erbyn hyn.

21. Mae gwasanaethau maethu (gwasanaethau awdurdodau lleol a gwasanaethau maethu annibynnol) yn parhau i gefnogi gofalwyr ac yn dweud bod sefydlogrwydd lleoliadau yn dda ar y cyfan. Nid yw'n syndod y gall tensiwn mewn lleoliadau mwy bregus waethygu o ganlyniad i'r cyfyngiadau symud — yn enwedig lle mae plant bellach yn cael eu haddysgu gartref. Bydd diwygiadau sydd ar ddod i'r broses o gwblhau asesiadau meddygol (fel rhan o geisiadau i faethu a mabwysiadu) yn cefnogi digonolrwydd lleoliadau ymhellach. Bydd rhoi'r newidiadau hyn ar waith yn gyflym yn lliniaru'r pwysau ar y system ymhellach.

22. Mae nifer o ofalwyr maeth wedi rhoi gwybod am achosion o COVID-19 neu symptomau COVID-19, ac mae'r canllawiau priodol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru wedi cael eu dilyn. Nifer bach iawn o blant mewn gofal maeth sydd wedi cael symptomau neu sydd wedi cael eu diagnosio â'r feirws.

**Gwasanaethau plant, gan gynnwys gofal cymdeithasol a diogelu**

**Gofal preswyl**

23. Mae plant sy'n byw mewn cartrefi gofal yn ymdopi'n dda ar y cyfan. Maent yn cael budd o gydberthnasau gwell â'r staff a'u cyfoedion ac mae diffyg ffactorau allanol sy'n tynnu sylw wedi helpu plant i ymgartrefu yn eu lleoliadau. Mae llawer mwy o weithgareddau'n cael eu cynnal yn amgylchedd y cartref hefyd.

24. Caiff y mwyafrif o'r plant eu haddysgu gartref. Rydym wedi gweld bod nifer y plant sy'n mynd ar goll o ofal wedi lleihau. Mae rhai cartrefi wedi cael problemau staffio am fod staff wedi cael eu diagnosio â COVID-19 neu wedi dioddef symptomau posibl, ond nid yw hyn wedi effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Hyd yn hyn, ychydig iawn o effaith y mae COVID-19 wedi'i chael ar blant sy'n byw mewn gofal preswyl ledled Cymru.

**Gwasanaethau plant**

25. Mae gwasanaethau plant yng Nghymru ‘ar agor’; mae absenoldebau staff wedi cael eu rheoli'n dda ac mae'r holl wasanaethau'n gweithredu'n ddigonol. Mae'r gweithlu'n iach ac yn llawn cymhelliant, ac mae oddeutu 90% o'r staff yn gweithio. Mae llawer o'r staff yn gweithio o bell, ond mae'r rhan fwyaf o wasanaethau wedi creu systemau rota er mwyn gallu ymateb i waith dyletswydd a gwaith brys yn amserol.

26. Er mwyn paratoi ar gyfer y cyfyngiadau symud, cynhaliodd awdurdodau lleol ledled Cymru asesiadau risg o lwythi achosion a rhoi gradd Coch, Melyn neu Wyrdd iddynt er mwyn sicrhau bod y plant a'r teuluoedd hynny sydd fwyaf agored i niwed yn cael eu blaenoriaethu i gael cymorth.

27. Pan roddwyd y cyfyngiadau symud ar waith, gwelodd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol ostyngiad mewn atgyfeiriadau, gan gynnwys ar gyfer achosion amddiffyn plant. Mae'r rhan fwyaf bellach yn nodi bod y nifer yn cynyddu'n araf ac yn gyson.

28. Nid yw awdurdodau lleol wedi nodi unrhyw newid sylweddol i'r ffordd maent yn ymateb i faterion diogelu. Mae plant a theuluoedd yn cael ymweliadau wyneb yn wyneb lle bo angen. Mae'r ddarpariaeth o gyfarpar diogelu personol (PPE) wedi bod yn ddigonol ym mhob rhan o'r gwasanaethau plant er mwyn cefnogi'r ymweliadau cartref hyn. Mae arferion arloesol eraill, megis gweld plant drwy ffenestri agored (a defnyddio technoleg) hefyd wedi cael eu defnyddio i fonitro trefniadau digoelu. Rydym ar ddeall bod y rhan fwyaf o blant wedi ymateb yn gadarnhaol i'r defnydd gwell o gyfryngau cymdeithasol a thechnoleg gan weithwyr proffesiynol.

29. Er gwaethaf gostyngiad mewn atgyfeiriadau, mae cofrestrau amddiffyn plant wedi cynyddu ychydig mewn rhai awdurdodau lleol. Ceir llawer llai o atgyfeiriadau gan weithwyr proffesiynol eraill gan nad oes llawer ohonynt yn cael cyswllt uniongyrchol â phlant a theuluoedd. Mewn rhai ardaloedd, mae pryderon am fynediad at archwiliadau meddygol amddiffyn plant ac mae rhai pryderon wedi cael eu mynegi am ostyngiad cyffredinol mewn gwaith diogelu amlasiantaeth. Fodd bynnag, mae cynadleddau amddiffyn plant yn cael eu cynnal yn rheolaidd.

30. Nid yw cyfradd y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru wedi newid yn sylweddol, ond mae rhai awdurdodau lleol wedi nodi cynnydd bach yn y niferoedd, yn bennaf o ganlyniad i rwystrau wrth geisio dod â threfniadau presennol i ben. Gall cael amser yn y llys fod yn heriol. Mae gwrandawiadau o bell yn cael eu cynnal mewn rhai awdurdodaethau a nodir eu bod yn gadarnhaol. Fodd bynnag, rydym ar ddeall bod llawer o wrandawiadau terfynol ac achosion a ymleddir yn cael eu gohirio.

31. Mae'n gadarnhaol bod adolygiadau statudol o blant sy'n derbyn gofal yn mynd rhagddynt, gan ddefnyddio technoleg rithwir fel arfer. Fodd bynnag, mae hyn wedi cyfyngu ar gyfran y rhieni/gofalwyr a phlant sydd wedi gallu cymryd rhan. Gall hyn effeithio ar hawliau plant a'r ffaith nad ydynt yn gallu mynegi eu barn.

32. Mae canllawiau gweithredol Llywodraeth Cymru ar gyfer darparwyr gwasanaethau gofal cymdeithasol plant yn ystod pandemig COVID-19 wedi bod yn ddefnyddiol i ddarparwyr ac awdurdodau lleol. Rydym wedi gweld dulliau ac arferion arloesol ar gyfer ymgysylltu'n eang ar draws rhanbarthau. Er enghraifft, yn Sir y Fflint mae Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru'n cyhoeddi newyddlenni wythnosol sy'n cyfeirio pobl at wybodaeth, cyngor a llinellau cymorth. Mae'n nodi'r disgwyliadau yn glir a sut i barhau i sicrhau bod plant yn cael eu diogelu.

**Addysg a gofal plentyndod cynnar, gan gynnwys effaith ar y farchnad gofal plant a datblygiad plant**

33. Mae'n bwysig pwysleisio'r pwynt amlwg sef bod angen i blant chwarae, cymdeithasu a chael cysylltiad corfforol er mwyn datblygu a ffynnu. Rydym hefyd yn gwybod bod cael profiadau da yn y blynyddoedd cynnar yn hollbwysig i gael canlyniadau cadarnhaol yn ddiweddarach mewn bywyd. Mae ffocws y llywodraeth ar ddarparu gofal plant i weithwyr allweddol ac addasu'r ffordd y defnyddir y cynnig gofal plant yn ddealladwy ac yn angenrheidiol. Fodd bynnag, mae llai o sylw wedi cael ei roi i effaith y cyfyngiadau symud ar lesiant plant. Dim ond dros amser y bydd y canlyniadau i ddatblygiad plant yn dod i'r amlwg. Felly, bydd unrhyw sylw ar y cam hwn dros dro ac yn dybiannol.

34. Mae'n debygol y bydd rhai plant wedi elwa ar gysylltu mwy â'u gofalwyr teuluol, ond bydd eraill wedi dioddef o'r diffyg symbyliad cymdeithasol, deallusol a chorfforol a geir gan wasanaethau gofal plant a chwarae. Er na ellir cadarnhau beth yw'r effaith ar blant unigol eto, rydym yn gwybod y bydd yr effaith yn fwy nodedig ar blant sy'n byw mewn tlodi a'r rheini mewn grwpiau economaidd-gymdeithasol is. Mae teuluoedd yn y cymunedau hyn yn fwy tebygol o gael profiad uniongyrchol o'r feirws ac mae ganddynt y mwyaf i'w golli o effaith anuniongyrchol y cyfyngiadau symud.

35. Mae hyn yn awgrymu bod angen cynllunio'r dull o adfywio gwasanaethau gofal plant a chwarae'n ofalus a chynnwys amrywiadau cynnil. Yn gyffredinol, mae angen cydbwyso'r angen i gefnogi gweithwyr allweddol drwy gynnig gofal plant ag anghenion plant eraill am ofal plant a chwarae o ansawdd da os ydynt am ddatblygu a ffynnu.

36. Mae data a gasglwyd gan AGC yn dangos bod 1,791 o wasanaethau gofal plant a chwarae wedi rhoi gwybod i AGC eu bod ar gau oherwydd y pandemig erbyn 21 Mai 2020. Gwasanaethau gofal dydd yw'r rhan fwyaf o'r rhain (1,285) a gwarchodwyr plant yw'r gweddill (506). Gellir cael manylion am y data hyn yn Atodiad A.

37. Mae 10 o wasanaethau eraill wedi atal eu cofrestriad dros dro yn wirfoddol ac mae 78 o wasanaethau eraill wedi canslo eu cofrestriad yn wirfoddol. Rydym yn cysylltu â gwasanaethau yn yr ail gategori er mwyn cadarnhau bod y darparwr wedi deall canlyniadau canslo ei gofrestriad â ni.

38. Yn y mwyafrif o awdurdodau lleol, mae mwy na hanner uchafswm capasiti'r gwasanaethau gofal plant ar gau. Y rheswm mwyaf cyffredin dros gau yw ‘nifer annigonol o blant yn mynychu'r gwasanaeth’.

39. O 13 Ebrill, dechreuodd arolygwyr AGC gysylltu â'r holl ddarparwyr gofal plant a chwarae a oedd ‘ar agor’ er mwyn cael sgwrs am y sefyllfa. Mae ein cysylltiad yn cefnogi darparwyr drwy wrando ar eu pryderon a chynnig cyngor ac arweiniad lle y gallwn. Nid yw'n syndod bod y rhan fwyaf wedi nodi gostyngiad dramatig yn nifer y plant sy'n mynychu ac mae llawer wedi rhoi rhai aelodau o staff ar ffyrlo. Mae'r rhan fwyaf yn gadarnhaol ynghylch y cymorth y maent wedi'i gael gan awdurdodau lleol a gan eu sefydliadau cynrychioliadol drwy Cwlwm. Mae pryderon am gyllid a chynaliadwyedd y gwasanaeth yn nodwedd amlwg yn eu hadborth. Bydd AGC yn parhau i gysylltu â darparwyr yn rheolaidd yn ystod y cyfyngiadau symud ac wedi hynny.

40. Ar 9 Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y byddai sawl agwedd ar y Safonau Gofynnol Cenedlaethol yn cael eu llacio dros dro. Nod y fenter hon oedd helpu i gefnogi argaeledd gwasanaethau hanfodol yn ystod y pandemig. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi gwybod i AGC am eu cymeradwyaeth ac mae angen i ddarparwyr ddefnyddio eu cyfrif ‘AGC Ar-lein’ i roi gwybod i ni am eu mesurau llacio. Hyd yn hyn, dim ond nifer bach o wasanaethau (29) sydd wedi rhoi gwybod i AGC eu bod wedi llacio un neu fwy o elfennau'r Safonau Gofynnol Cenedlaethol. Er hynny, gall estyn y trefniadau llacio dros dro yn ystod y cyfnod adfer helpu i gefnogi'r gwasanaethau sydd ar gau i ailagor.

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

**Atodiad A**

## CCP Temporary Closures due to Covid - 19 (data as at: 21/05/2020)


*****CIW Use Only*****

*includes: Notifications submitted to CIW up to 21 May 2020 which had the type of CCP - Temporary closure due to COVID-19.*

Number CCP Services Temporary Closures due to Covid-19 by LA Area



% (of LA total services) of CCP Temporary closures by Local Authority area




**Count of CCP Temporary Closures due to Covid-19 by service type**

| Service Type | Creche | Full Day Care | None | Open Access Play Provision | Out of School Care | Sessional Day Care | Total |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Child Minder | | | 506 | | | | **506** |
| Childrens Day Care | 3 | 628 | | 10 | 266 | 378 | **1285** |
| **Total** | **3** | **628** | **506** | **10** | **266** | **378** | **1791** |

**Count of CCP Temporary Closure due to Covid-19 by Local Authority Area**

| Local Authority | Number of services | maximum capacity Total | Temporary Closure Notifications due to Covid -19 | % of closures by LA total | Closures - Max Capacity | % of maximum capacity closed | Number re-opened | Re-opened Max Capacity | Net services still open | Net Max Capacity Still Open | Net Services Closed | Net Max Capacity Closed |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cardiff | 422 | 9848 | 191 | 45.3% | 5991 | 60.8% | 2 | 20 | 233 | 3877 | 189 | 5971 |
| Swansea | 192 | 4660 | 78 | 40.6% | 2300 | 49.4% | 4 | 338 | 118 | 2698 | 74 | 1962 |
| Wrexham | 167 | 4934 | 91 | 54.5% | 3020 | 61.2% | 9 | 381 | 85 | 2295 | 82 | 2639 |
| Rhondda Cynon Taf | 223 | 4468 | 96 | 43.0% | 2326 | 52.1% | 4 | 79 | 131 | 2221 | 92 | 2247 |
| Flintshire | 220 | 5422 | 116 | 52.7% | 3361 | 62.0% | 5 | 144 | 109 | 2205 | 111 | 3217 |
| Carmarthenshire | 219 | 4435 | 112 | 51.1% | 2548 | 57.5% | 5 | 181 | 112 | 2068 | 107 | 2367 |
| Caerphilly | 214 | 4044 | 97 | 45.3% | 2215 | 54.8% | 3 | 75 | 120 | 1904 | 94 | 2140 |
| Vale of Glamorgan | 202 | 3819 | 81 | 40.1% | 2159 | 56.5% | 3 | 194 | 124 | 1854 | 78 | 1965 |
| Conwy | 149 | 3793 | 81 | 54.4% | 2153 | 56.8% | 2 | 101 | 70 | 1741 | 79 | 2052 |
| Newport | 148 | 3753 | 68 | 45.9% | 2317 | 61.7% | 4 | 164 | 84 | 1600 | 64 | 2153 |
| Powys | 191 | 3595 | 107 | 56.0% | 2026 | 56.4% | 1 | 8 | 85 | 1577 | 106 | 2018 |
| Denbighshire | 126 | 3511 | 74 | 58.7% | 2206 | 62.8% | 2 | 58 | 54 | 1363 | 72 | 2148 |
| Pembrokeshire | 140 | 2837 | 66 | 47.1% | 1564 | 55.1% | 3 | 58 | 77 | 1331 | 63 | 1506 |
| Torfaen | 87 | 2106 | 38 | 43.7% | 1195 | 56.7% | 5 | 293 | 54 | 1204 | 33 | 902 |
| Bridgend | 133 | 3103 | 71 | 53.4% | 1934 | 62.3% | 2 | 28 | 64 | 1197 | 69 | 1906 |
| Gwynedd | 171 | 3478 | 109 | 63.7% | 2521 | 72.5% | 4 | 159 | 66 | 1116 | 105 | 2362 |
| Monmouthshire | 115 | 2484 | 60 | 52.2% | 1582 | 63.7% | 2 | 158 | 57 | 1060 | 58 | 1424 |
| Neath Port Talbot | 130 | 2328 | 61 | 46.9% | 1353 | 58.1% | 3 | 72 | 72 | 1047 | 58 | 1281 |
| Isle of Anglesey | 99 | 1953 | 55 | 55.6% | 1310 | 67.1% | 0 | 0 | 44 | 643 | 55 | 1310 |
| Blaenau Gwent | 56 | 1028 | 19 | 33.9% | 440 | 42.8% | 1 | 25 | 38 | 613 | 18 | 415 |
| Merthyr Tydfil | 43 | 844 | 21 | 48.8% | 402 | 47.6% | 0 | 0 | 22 | 442 | 21 | 402 |
| Ceredigion | 100 | 1699 | 69 | 69.0% | 1336 | 78.6% | 0 | 0 | 31 | 363 | 69 | 1336 |